

Ffurflen RP8

Cadarnhad o fanylion cofrestredig plaid wleidyddol

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan **drysorydd** eich plaid.

Dylech gwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon atom bob blwyddyn i gadarnhau manylion cofrestredig eich plaid.

Defnyddiwch y ffurflen hon i gadarnhau statws cofrestru eich plaid ac i ddweud wrthym am unrhyw newidiadau rydych am eu gwneud i'r manylion cofrestredig.

Dylech gyflwyno'r ffurflen o fewn chwe mis i'r dyddiad cau ar gyfer anfon eich datganiad o gyfrifon. Os yw incwm a gwariant eich plaid yn £250,000 neu lai yna dylech gyflwyno'r ffurflen hon o fewn 10 mis i ddiwedd blwyddyn ariannol y plaid. Os yw incwm a gwariant eich plaid dros £250,000 yna dylech eu cyflwyno o fewn 12 mis a saith diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol.



Pwysig: Os na fyddwch yn anfon y ffurflen hon atom o fewn chwe mis i'r dyddiad dyledus gall eich plaid gael ei dadgofrestru.

Llenwi'r ffurflen a'i hanfon atom ni

Gallwch deipio'n syth ar y ffurflen a'i hargraffu er mwyn ei llofnodi a'i hanfon atom neu gallwch argraffu'r ffurflen, ei chwblhau â llaw a'i hanfon atom.

Peidiwch ag anfon y ffurflen hon yn electronig. Mae angen llofnod ar y ffurflen gan ei bod yn cynnwys datganiad, felly gallwch naill ai ei hanfon atom drwy'r **post** neu **drwy ffacs**.

Noder: Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon efallai y bydd angen i chi hefyd llenwi ffurflenni:

- RP2 'Cais i newid cofnod yng nghofrestr y pleidiau gwleidyddol'
- RP3 'Hysbysiad o newid mewn manylion cofrestredig'
- RP4 'Cofrestru swyddog plaid newydd'
- RP5 'Hysbysiad o fanylion dirprwy drysorydd neu swyddog ymgyrchu'
- RP6 'Datganiad o eithriad gan plaid wleidyddol gofrestrdig'



Gweler y **Blwch Diffiniadau** ar ddiwedd y ddogfen hon i gael esboniad ar y termau cyfreithiol a ddefnyddir yn y nodyn hwn.

Nodiadau esboniadol

Adran 1 – Manylion y blaid

Nodwch enw'ch plaid a'r cyfeirnod unigryw a roddwyd gennym pan gafodd y blaid ei chofrestru.

Adran 2 – Datganiad a llofnod

Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi a'i ddyddio gan drysorydd cofrestredig y blaid



Byddwch yn gwneud datganiad pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon. Dylech ofalu i beidio â gwneud datganiad ffug.

Am ragor o wybodaeth gweler ein canllawiau ar gofrestru plaid wleidyddol sydd i'w gweld ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk

Adran 3 - eithrio rhag anfon adroddiadau wythnosol yn ystod cyfnodau etholiadau cyffredinol

Os oes gennych eithriad cyffredinol rhag adrodd wythnosol yn barod, ticiwch 'ydy' neu 'nac ydy' i ddweud a fydech yn hoffi cadw'r eithriad cyffredinol hwn rhag adrodd wythnosol yn ystod etholiad cyffredinol.

Os nad oes gennych eithriad cyffredinol rhag adrodd wythnosol nid oes raid i chi gwblhau'r adran hon.

Os hoffech wneud cais am eithriad rhag adrodd wythnosol yna dylech gwblhau ffurflen RP6 'Datganiad o eithriad gan blaid wleidyddol gofrestredig'.

Adran 4 – Newid manylion cofrestredig

Defnyddiwch yr adran hon ar y ffurflen i'n hysbysu am newid i fanylion cofrestredig eich plaid nad ydych wedi dweud wrthym amdano hyd yn hyn. Nodwch a ydych wedi atodi ffurflenni neu gyfansoddiad y blaid drwy dicio'r blwch priodol.

Atodi ffurflen RP3 wedi'i chwblhau 'Hysbysiad o newid manylion' i newid:

- cyfeiriad y blaid neu un o'i unedau cyfrifo
- cyfeiriad cartref unrhyw swyddog plaid neu uned gyfrifo
- enw unrhyw drysorydd neu ail swyddog unrhyw uned gyfrifo
- enw unrhyw uned gyfrifo
- nifer unedau cyfrifo cofrestredig y blaid

Atodi ffurflen RP4 'Cais i gofnodi swyddog plaid newydd' i newid:

- arweinydd y blaid
- swyddog enwebu
- trysorydd y blaid
- swyddog ymgyrchoedd
- swyddogion ychwanegol wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn

Atodi ffurflen RP5 'Hysbysiad am benodi neu derfynu penodiad dirprwy drysorydd neu ddirprwy swyddog ymgyrchu' er mwyn:

- penodi dirprwy swyddogion
- terfynu dirprwy swyddogion
- hysbysu am newid cyfeiriad dirprwy swyddogion

Nid ydym yn codi tâl ychwanegol am newid unrhyw fanylion cofrestredig.

Adran 5 - Tâl cadarnhau blynyddol

Ticiwch y blwch i ddweud eich bod wedi amgáu'r tâl blynyddol o £25.00.

Adran 6 – Newid cofnod yng nghofrestr y pleidiau gwleidyddol

Os yw'ch plaid eisiau newid y cofnod cofrestredig rhaid i chi lenwi ffurflen RP2 'Cais i newid cofnod yng nghofrestr y pleidiau gwleidyddol: mae'r ffurflen yn caniatáu i chi:

- wneud newidiadau i enw cofrestredig y blaid
- newid y rhan(nau) o Brydain lle mae'r blaid wedi'i chofrestru
- ychwanegu, dileu neu newid arwyddlun cofrestredig
- ychwanegu neu ddileu swydd swyddog ymgyrchu
- newid statws y blaid os yw'n blaid fach gofrestrdig

Rhaid i chi dalu tâl ychwanegol o £25.00 i wneud newidiadau i gofnod cofrestredig y blaid.

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl drwy'r post neu ffacs at:

Party Registration Team
Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1929
Ffacs: 029 2038 0996
Ebost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.electoralcommission.org.uk

Byddwn yn cydnabod pob hysbysiad.

Ffurflen RP8 a nodiadau esboniadol - Cadarnhad o fanylion cofrestredig plaid wleidyddol

At ddefnydd y Comisiwn
Etholiadol:

Cadarnhad o fanylion cofrestredig plaid wleidyddol

Adran 1 Manylion y blaid

Enw'r blaid
gofrestredig

Cyfeirnod y
blaid

Adran 2 Datganiad a llofnod

Yr wyf yn datgan yn unol ag adran 32 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, fod manylion cofrestredig y blaid a enwir uchod yn dal yn gywir, i'r gorau o'm gwybodaeth a'm cred (yn amodol ar y newidiadau amgaeedig ac a nodir isod).

Llofnod

Enw mewn
llythrennau
bras

Trysorydd cofrestredig

Dyddiad

Adran 3 Eithrio rhag adrodd wythnosol

Yr wyf yn cadarnhau fod y blaid yn dymuno ail-gadarnhau ei datganiad o eithriad dan adran 64 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ydy

Nac ydy

Adran 4 Newid manylion cofrestredig

Hysbysiad am newid manylion (Ffurflen RP3) wedi'i gynnwys

Ydy

Nac ydy

Cais i gofrestru swyddog newydd (RP4 neu RP5) wedi'i gynnwys

Ydy

Nac ydy

Hysbysiad am newid cyfansoddiad wedi'i gynnwys

Ydy

Nac ydy

Adran 5 Ffi cadarnhau flynyddol

Ffi o £25 yn amgaaedig

Ydy

Nac ydy

Adran 6 Cais i wneud newidiadau i'r cofnod ar y gofrestr

Cais i wneud newidiadau i'r cofnod ar y gofrestr yn amgaaedig (Ffurflen RP2)

Oes

Nac oes

Os oes, dylid anfon tâl ychwanegol o £25 gyda'r cais

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn

Gwiriwyd gan

Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata

Cyfeirnod y ffeil



Blwch diffiniadau

Sut mae'r gyfraith yn diffinio'r termau cyfreithiol a ddefnyddir yn y nodyn hwn

Plaid wleidyddol

Plaid wedi'i chofrestru gyda ni dan Ran II Deddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000

Cofrestr pleidiau gwleidyddol

Y gofrestr o bleidiau gwleidyddol sy'n bwriadu sefyll etholiadau yng Nghymru; Lloegr a'r Alban sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn Etholiadol ac sy'n cael ei alw yn Gofrestr Prydain.

Y gofrestr o bleidiau gwleidyddol sy'n bwriadu sefyll etholiadau yng Ngogledd Iwerddon sy'n cael ei gynnal gan y Comisiwn Etholiadol ac sy'n cael ei alw yn Gofrestr Gogledd Iwerddon.

Uned gyfrifo

Sefydliad lleol neu gyswllt sy'n gyfrifol am ei faterion ariannol ei hun, ar wahân i faterion ariannol trefniadaeth ganolog y blaid, ee plaid etholiadol). Rhaid cofrestru unedau cyfrifo gyda'r Comisiwn Etholiadol.

Datganiad eithrio

Datganiad i'r Comisiwn Etholiadol, wedi'i lofnodi gan swyddogion cyfrifol plaid yn dweud nad yw'r blaid yn bwriadu sefyll mewn etholiad cyffredinol penodol (neu unrhyw etholiadau Seneddol).

Datganiad blynyddol o gyfrifon

Datganiad o gyfrifon wedi'i baratoi gan drysorydd y blaid a'i gymeradwyo gan arweinydd cofrestredig y blaid sy'n adrodd ar flwyddyn ariannol y blaid. Rhaid i'r datganiad o gyfrifon gael ei archwilio os yw incwm a gwariant gros y blaid yn fwy na £250,000.

Lle gallaf i gael cyngor pellach?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hysbysu'r Comisiwn am gyfraniadau gwleidyddol, ac am adrodd am y rhoddion a wneir i gymdeithasau anghorfforedig, cysylltwch â ni am gyngor pellach.

Gallwch gael cyngor pellach gan:

Party Registration Team
Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
Ebost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.electoralcommission.org.uk

Neu

Y Comisiwn Etholiadol
City Chambers
High Street
Edinburgh EH1 1YJ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 0131 225 0205
Ebost: infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmniau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

Ffôn: 0333 103 1929
Ffacs: 029 2038 0996
Ebost: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Ground Floor, 4 Cromac Place
The Gasworks
28-32 Alfred Street
Belfast BT7 2JB

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 028 9031 4827
Ebost: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ffurflen RP8 a nodiadau esboniadol - Cadarnhad o fanylion cofrestredig plaid wleidyddol

Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.